OSC
Office of Surveillance
Commissioners

Adroddiad gydag embargo
Nid yw hwn i'w gyhoeddi cyn 0.9:30
ar 29ain Mehefin 2004

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

y Prif Gomisiynydd Ar-wylio

i'r Prif Weinidog

ac i Weinidogion yr Alban ar gyfer 2003-2004

HC 668
SE/2004/109

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

y Prif Gomisiynydd Ar-wylio

i'r Prif Weinidog a

Gweinidogion yr Alban ar gyfer 2003-2004

Prif Gomisiynydd:

**Y Gwir Anrhydeddus Syr Andrew Leggatt**

Cyflwynwyd i'r Senedd gan y Prif Weinidog
yn unol ag adran 107(3) Deddf yr Heddlu 1997
28ain Mehefin 2004

Gorchmynnwyd gan Dy'r Cyffredin
i'w gyhoeddi 29ain Mehefin 2004

Cyflwynwyd gerbron Senedd yr Alban
gan Weinidogion yr Alban
28ain Mehefin 2004

HC 668
SE/2004/109

# Cynnwys

*Tudalen*


Cyflwyniad 2
Trosolwg o'r flwyddyn 2
Y Darpariaethau Statudol 3
Cyflawni fy nyletswyddau 4
*Goruchwylio*
*Apeliadau gan swyddogion awdurdodi*
*Afreoleidd-dra*
*Adrodd i'r Prif Weinidog a Gweinidogion yr Alban*
*Perthynas â Chomisiynwyr eraill*
Trefn Busnes Swyddfa'r Comisiynwyr Ar-wylio 6
Ymyrryd ag eiddo ac ar-wylio ymwthiol 6
*Ystadegau*
*Ymyrryd ag eiddo*
*Ar-wylio Ymwthiol*
Delio ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith 7
Ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd a ffynonellau cudd-ymchwil dynol (CHIS) 9
*Ystadegau*
*Ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd CHIS*
Arolygiadau yn gyffredinol 10
Arolygu Asiantaethau gorfodi'r gyfraith 11
*Arferion drwg ac arferion da*
*Themâu cylchol*
Arolygu Adrannau'r Llywodraeth a chyrff cysylltiedig 12
Arolygu Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Lloegr 13
*Cymru a Lloegr*
*Yr Alban*
Arolygu Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru a Lloegr 15
Arolygu cyrff cyhoeddus eraill 16
Blaenoriaethau arolygu 16
Y flwyddyn sydd i ddod 17

Atodiadau
Atodiad A Awdurdodiadau a roddwyd dan Ran III Deddf yr Heddlu 1997 oddi ar ei gweithredu 18
Atodiad B Dadansoddiad yn ôl trosedd o awdurdodiadau a roddwyd dan Ran III Deddf yr Heddlu 1997 19
Atodiad C Awdurdodiadau ar-wylio ymwthiol a roddwyd dan Ran II. Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwiliol 2000 a Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwiliol (Yr ALban) 2000 oddi ar eu gweithredu 20
Atodiad D Dadansoddiad yn ôl trosedd o awdurdodiadau a roddwyd o dan Ran II Deddf RIPA a RIPA (2000) 21
Atodiad E Blaenoriaethau arolygu 22
Atodiad F Aelodau'r Swyddfa Comisiynwyr Ar-wylio 24

Picture here
Title

**Y Gwir Anrhydeddus Syr Andrew Leggatt,**
Y Prif Gomisiynydd Ar-wylio

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2003 a 31 Mawrth 2004.

Fy nyletswydd yw arolygu:

(a) perfformiad swyddogaethau dan Ddeddf yr Heddlu 1997 ("Deddf 1997");

(b) (ac eithrio mewn perthynas â Rhyng-gipio Negeseuon a'r Gwasanaethau Cudd-ymchwil y modd y defnyddir ac y cyflawnir y pwerau a'r dyletswyddau a gyflwynwyd neu a roddwyd o dan Rhan II Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwiliol 2000 ('RIPA'); a

(c) y modd y defnyddir ac y cyflawnir y pwerau a'r dyletswyddau a gyflwynwyd neu roddwyd gan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwiliol 2000 (Yr Alban) ('RIP(S)A');

Yn ymarferol, mae hyn yn cynnwys yr holl weithgareddau cudd (ac eithrio clustfeinio ar alwadau ffôn a chodi llythyrau) a gynhelir gan yr holl awdurdodau cyhoeddus, ac eithrio'r gwasanaethau cudd-ymchwil. Er bod Rhan III RIPA, sy'n berthynol i seiffro, hefyd yn rhan o'm cyfrifoldeb, nid yw wedi dod i rym eto.

Fel rhan o'm dyletswydd dan y tair Deddf i adrodd yn flynyddol, yr wyf wedi paratoi adroddiad cyfun.

# Trosolwg o'r flwyddyn

Mae Rhan III Deddf 1997 wedi bod mewn grym am dros bum mlynedd erbyn hyn a Rhan II RIPA a rhannau perthnasol RIP(S)A am bron i bedair blynedd.

Mae nifer yr awdurdodiadau a roddwyd ar gyfer ymyrryd ag eiddo ac ar-wylio ymwthiol (2, 483 a 447 yn eu tro) yn debyg iawn i'r llynedd. Yr wyf yn parhau i fod yn fodlon bod yr awdurdodiadau hyn yn cael eu cymryd o ddifrif gan yr awdurdodau. Mae hyn i'w ddisgwyl o ystyried fod pod awdurdodiad yn cael ei lofnodi gan Brif Swyddog, a'i anfon drwy Swyddfa'r Comisiynwyr Ar-wylio cyn cael ei gymeradwyo neu ei archwilio gan Gomisiynydd.

Mae'r nifer yr awdurdodiadau a roddwyd ar gyfer ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd a ffynonellau cudd-ymchwil dynol (CHIS) sy'n dal i fod mewn grym ar ddiwedd y flwyddyn, sef 5,830 a 5,000 yn eu tro, yn dangos cynnydd bychan yn nefnydd ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd (gan asiantaethau gorfodi'r

gyfraith o gymharu â'r llynedd, tra bo defnydd CHIS yn aros yn debyg. Dywedais yn fy adroddiad am 2002-2003 fod defnyddio'r pwerau hyn yn parhau i beri anawsterau. Er ei bod hi'n ymddangos bod y sefyllfa'n gwella, mae rheolaeth ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd yn parhau yn anwastad ac mae tueddiad i beidio cydnabod fel CHIS
ffynonellau a ddylai gael eu cydnabod felly.

Drwy'r rhaglen arolygiadau, mae'r Arolygwyr a'r Comisiynwyr Cynorthwyol yn cael llwyddiant sylweddol, a hynny o safbwynt ansawdd a chynnydd mewn cynhyrchiant o gymharu â'r llynedd. Mae'r llwyddiant hwn wedi digwydd nid y unig oherwydd ymrwymiad ac arbenigedd y rhai sy'n cynnal yr arolygiadau ond hefyd am eu bod yn dwyn mewn cof mae cynorthwyo yw eu swyddogaeth ac nid beirniadu yn unig. Rwyf
wedi llunio protocol ar gyfer blaenoriaethu arolygiad awdurdodau lleol, a gellir ei weld ym mharagraff 9.13 yr adroddiad hwn.

Mae'n dda gennyf adrodd, ers i'r arolygiadau hyn ddechrau ym mis Mai 2001, fod y cyfan o'r 442 awdurdodau lleol wedi cael eu  harolygu erbyn hyn. Mae asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn parhau i gael eu harolygu yn flynyddol.

Dylid nodi bod cyflwyno Rhan III RIPA (sy'n ymdrin â seiffro) yn parhau i gael ei ohirio gan y Swyddfa Gartref. Mae'r Rhan honno yn darparu ar gyfer caffael  y dulliau i gael mynediad neu i ddadgriptio data a warchodwyd yn electronig. Fodd bynnag, nid yw defnydd cynhyrchion diogelu a seiffro gwybodaeth gan rai a ddrwgdybir o fod yn derfysgwyr neu droseddwyr mor eang ag y disgwylid pan Yn y cyfamser mae'r Ganolfan Cymorth Technegol Genedlaethol (cyfleusterau a reolir gan y Swyddfa Gartref i wneud gwaith prosesu data cymhleth) yn galluogi asiantaethau gorfodi'r gyfraith i ddeall data electronig a warchodir cyn belled ag y bo angen hynny. Fe'm sicrheir fod yr angen i weithredu Rhan III RIPA yn cael ei gadw mewn golwg.

Cynhaliodd y Swyddfa Gartref ymgynghoriad â'r cyhoedd ym Mawrth 2003 ar Ran I Pennod II RIPA 2000, yn gwahodd sylwadau am 'Parchu Preifatrwydd a Gwarchod y Cyhoedd rhag Trosedd". Siom oedd mai cyfyngedig iawn oedd yr ymateb i'r ymgynghoriad hwn a gyhoeddwyd yn Ionawr 2004. Rwyf wedi ystyried yr awgrymiadau a allent effeithio ar Swyddfa'r Comisiynwyr Ar-wylio ac wedi dod i'r casgliad nad ydynt yn gofyn am newid mewn ymarfer. Byddaf yn parhau i hybu hyder y cyhoedd yng ngweithrediad ac arolygiad gweithgareddau ar-wylio a wneir gan awdurdodau cyhoeddus drwy sicrhau fod gwefan SCA yn cael ei chadw yn gyfredol.

# Y Darpariaethau Statudol

Mae pwerau a phrif ddarpariaethau Rhan III Deddf 1997, Rhan II RIPA a RIP(S)A sydd yn berthnasol i arolygiaeth ar-wylio cudd, ynghyd ag adroddiad am swyddogaethau statudol y Comisiynwyr yn cael eu hegluro yn fy Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2000-2001 ac maent ar gael ar ein gwefan ar
www.surveillancecommissioners.gov.uk

Daeth Gorchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwiliol (Ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd a ffynonellau cudd-ymchwil dynol (CHIS)) 2003 i rym ar 5 Ionawr 2004. Mae Erthyglau 2 a 3 y Gorchymyn yn

diwygio Atodlen 1 RIPA 2000 drwy ychwanegu ato nifer o awdurdodau cyhoeddus newydd yn cynnwys y Comisiynydd
Gwybodaeth,Gwasanaeth Carchardai Gogledd Iwerddon, Swyddfa Masnach Deg, Swyddfa'r Ombwdsman Heddlu ar gyfer Gogledd Iwerddon a'r Comisiwn Gwasanaethau Post. Cynhaliodd fy swyddfa gyfarfod defnyddiol o'r cyrff dan sylw cyn i'r Gorchymyn ddod i rym. Ni chafwyd Gorchymyn o'r fath yn Yr Alban eto, o dan RIP(S)A.

Ar wahân i ychwanegu awdurdodau cyhoeddus, nodwedd bwysig yr offeryn statudol oedd ei fod yn atal pob awdurdod lleol (a llawer awdurdod arall hefyd) rhag gweithredu ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd a rhag defnyddio neu gynnal CHIS, ac eithrio ar y sail fod awdurdodiad yn angenrheidiol i'r pwrpas o atal neu gyfarwyddo trosedd neu atal anhrefn. Gan nad ydynt bellach yn cael awdurdodi gweithgareddau cudd , oherwydd lles y cyhoedd nag i'r pwrpas o warchod iechyd y cyhoedd, gall yr awdurdodau hyn, bellach, ddim gweithredu rhai gweithrediadau a oedd yn ddefnyddiol gynt, ac o fewn eu cylch gorchwyl priodol. Gallai ystod eu pwerau diwygiedig deilyngu adolygiad.

Daeth y Gorchymyn Comisiwn Annibynnol Cwynion yr Heddlu (Pwerau Ymchwilio) 2004 i rym ar 1 Ebrill 2004. Mae Rhan II Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 yn darparu ar gyfer system newydd o drin cwynion gan y cyhoedd yn erbyn yr heddlu yng Nghymru a Lloegr. O fewn y system honno gall y Comisiwn newydd gynnal ei ymchwiliadau ei hunan, yn annibynnol o'r heddlu, a bydd ganddo ei ymchwilwyr ei hunan ar gyfer y pwrpas hwnnw. Mae'r Gorchymyn yn galluogi ymchwilwyr y Comisiwn i weithredu yr ystod lawn o bwerau mewn perthynas ag ar-wylio cudd a ffynonellau cudd-ymchwil dynol, ac, yn anarferol, gellir awdurdodi eu gweithgareddau cudd gan unrhyw un o'u 18 Comisiynydd.

Roedd y Nodyn Eglurhad a gyhoeddwyd gyda'r Gorchymyn, yn anffortunus, yn ddiffygiol, am ei fod yn honni fod y Gorchymyn yn rhoi'r pŵer i is-gadeirydd y Comisiwn Cwynion yn erbyn yr Heddlu i apelio yn erbyn penderfyniad ar fy rhan i "i wrthod neu ddiddymu awdurdodiad." Nid yw'r Gorchymyn yn gwneud unrhyw beth o'r fath: Nid wyf i'n gwrthod neu ddiddymu awdurdodiadau ac yn ôl y gyfraith nid oes unrhyw apêl yn erbyn penderfyniad o'm heiddo. Pe dangosid y Gorchymyn i Swyddfa'r Comisiynwyr Ar-wylio tra'r oedd ar ffurf drafft, byddai'r camgymeriad wedi'i osgoi.

Daeth Deddf Trosedd (Cydweithrediad Rhyngwladol) 2003 i rym hefyd ar 1 Ebrill. Mae'r Ddeddf yn diwygio RIPA 2000 i ddarparu ar gyfer gweithrediadau ar-wylio estron yn y Deyrnas Gyfunol. Mae'r Ddeddf yn caniatáu i heddlu a swyddogion y tollau o dramor sydd ar sodlau rhywun i gynnal ar-wylio ymwthiol ac ar gyfarwyddyd yn y Deyrnas Unedol am hyd at bum awr cyn i'r heddluoedd domestig neu Dollau Tramor a Chartref benderfynu a fyddant yn cymryd y gwaith drosodd.

# Cyflawni fy nyletswyddau

## Goruchwylio

Mae prif swyddogaethau'r Swyddfa Comisiynwyr Ar-wylio yn cael eu cyflawni'n bennaf drwy oruchwyliaeth y Comisiynwyr dros awdurdodiadau, arolygiadau gan Arolygwyr a Chomisiynwyr

Cynorthwyol, ac ymweliadau dilynol gan Gomisiynwyr ag asiantaethau sy'n gorfodi'r gyfraith. Cynhelir cyfarfodydd o'r Comisiynwyr, Cynorthwywyr Cynorthwyol ac Arolygwyr fel rheol dair gwaith y flwyddyn. Mae aelodau Swyddfa'r Comisiynwyr Ar-wylio hefyd yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd â chyrff eraill ac yn mynychu cynadleddau gyda'r bwriad o gynorthwyo i wella dealltwriaeth ynghylch y ddeddfwriaeth a chydymffurfiaeth â hi.

Rwyf mewn cysylltiad â'r Ysgrifennydd a'r Prif Arolygydd Ar-wylio yn ôl yr angen drwy ffacs, ffon ac e bost wedi'i amgryptio. Pan fyddwn yn cyfarfod yn wythnosol maent yn adrodd i mi a thrafodwn bob agwedd ar fusnes Swyddfa'r Comisiynwyr Ar-wylio. Yr wyf i'n bersonol yn adolygu awdurdodiadau ymyrryd ag eiddo ac ar-wylio ymwthiol; ac yr wyf yn anfon i Brif Swyddogion yr adroddiadau a dderbyniaf am eu hawdurdodau, ynghyd â llythyr eglurhad.

Yn ystod y flwyddyn mae pob llu heddlu yn y Deyrnas Unedol wedi cael ymweliad un ai gan un o'r Comisiynwyr neu gennyf i fy hun. Gwnaed ymweliadau tebyg â'r asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill, yn cynnwys Y Corfflu Troseddau Cenedlaethol (NCS), Tollau Tramor a Chartref EM (HMCE), y Gwasanaeth Cudd-ymchwil Troseddol Cenedlaethol (NCIS) ac Asiantaeth Gorfodaeth Cyffuriau Yr Alban (SDEA), yn ogystal â Chyllid y Wlad, yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a Gwasanaeth Carchardai EM.

Mae'r ymweliadau hyn yn galluogi'r Comisiynwyr i weld pa gynnydd a wnaed o safbwynt gweithredu argymhellion a wneir gan yr Arolygwyr. Maent hefyd yn gyfle i drafod materion perthnasol, sydd yn fy marn i, yn ddefnyddiol i'r Prif Swyddogion yn ogystal â'r Comisiynwyr.

Bu pedwar cyfarfod rhwng y Comisiynwyr, y Comisiynwyr Cynorthwyol a'r Arolygwyr yn y flwyddyn dan sylw. Mae'r rhain yn gyfarfodydd gwerthfawr sy'n caniatáu i'r Comisiynwyr i ystyried pwyntiau yn ymwneud â dehongliadau a gwneud penderfyniadau ar y cyd. Mae'r cyfarfod hefyd yn eu galluogi i drafod materion yn codi o'r arolygiadau a gynhelir gan Gomisiynwyr Cynorthwyol ac Arolygwyr a sicrhau cysondeb. O bryd i'w gilydd cyhoeddir canllawiau i gynorthwyo awdurdodau cyhoeddus gyda phwyntiau dehongli ac arfer.

## *Apeliadau gan swyddogion awdurdodi*

Ni chafwyd unrhyw apeliadau gan swyddogion awdurdodi yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.

## *Afreoleidd-dra*

Er bod rhai asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn gyflym o ran adrodd unrhyw afreoleidd-dra ym mhrosesau'r Ddeddf Heddlu neu RIPA, rwyf yn bwriadu galw ar bob awdurdod cyhoeddus i adrodd digwyddiadau o'r fath heb oedi er mwyn gallu asesu'r oblygiadau yn well a ble bo hynny'n briodol, gellir gwneud ymholiadau pellach.

## *Adrodd i'r Prif Weinidog a Gweinidogion yr Alban*

Ni chefais unrhyw achos i adrodd i'r Prif Weinidog neu Weinidogion Yr Alban ar unrhyw beth yn ymwneud ag unrhyw rai o'r materion yr wyf yn ymdrin â hwy yn ystod y flwyddyn.

*Perthynas â Chomisiynwyr eraill*

Yn Nhachwedd 2003 archwiliais gyda'r Comisiynwyr hynny sydd yn ymwneud â Cudd-ymchwil, Rhyng-gipio Negeseuon a Gwybodaeth a chyda Llywydd Y Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio'r posibilrwydd o adnabod a thrafod materion o ddiddordeb cyffredin. Ni wnaethom nodi unrhyw faterion a oedd yn gwarantu trafodaeth am y tro. Ond rydym yn ystyried ein bod wedi sefydlu sianel gyfathrebu na fyddwn yn petruso i fanteisio arno pryd bynnag y bydd angen.

# Trefn Busnes Swyddfa'r Comisiynwyr Ar-wylio

Mae gwaith y Comisiynwyr yn parhau i gael ei osod allan fel y disgrifiwyd yn fy adroddiad ar gyfer 2001-2002. Yn dilyn adolygiad o raniad y gwaith, mae'r Comisiynwyr Cynorthwyol yn awr wedi cymryd y cyfrifoldeb o arolygu y rhan fwyaf o adrannau ac asiantaethau'r Llywodraeth yn ogystal â'r awdurdodau lleol. Mae Arolygwyr yn parhau i arolygu asiantaethau gorfodi'r gyfraith ac awdurdodau lleol eraill. Mae rhai o'r awdurdodau cyhoeddus pwysicaf (ac eithrio asiantaethau gorfodi'r gyfraith) yn cael eu cyd-arolygu gan Comisiynwyr Cynorthwyol ac arolygwyr.

Rwy'n ddiolchgar iddynt i gyd, ac i'r ysgrifenyddiaeth, am eu cymorth. Unwaith eto, mae'n rhaid i mi dynnu sylw arbennig at gyflawniad eithriadol yr Arolygwyr a'r Comisiynwyr Cynorthwyol a mynegi diolch arbennig amdano. Maent wedi cynnal nifer sylweddol o arolygiadau. Ond mae'n fwy na rhifau yn unig. Maent wedi
gwneud eu gwaith yn drwyadl, gan gynnig cymorth ar bob achlysur, ac rwy'n siŵr bod hynny'n cael ei werthfawrogi gan y sawl a gafodd eu harolygu.

Bu newidiadau bychain yn aelodaeth Swyddfa'r Comisiynwyr Ar-wylio. Yn dilyn penderfyniad gan ddau o'r arolygwyr i weithio hanner yr amser a wnaethant gynt, recriwtiaid un arolygwr amser llawn ychwanegol. Ymunodd Ysgrifennydd newydd â ni yn y SCA ar ddiwedd 2003. Rwyf yn hyderus y bydd hi'n parhau i wella'r gefnogaeth i'r broses arolygu ac i gynorthwyo awdurdodau cyhoeddus, wrth gynnal Ysgrifenyddiaeth
effeithiol ac effeithlon.

# Ymyrryd ag eiddo ac ar-wylio ymwthiol

Mae pwerau a dyletswyddau Comisiynwyr o ran craffu ar, a phenderfynu p'run ai i gymeradwyo, awdurdodiadau o dan Deddf 1997 ac o dan RIPA neu RIP(S)A,yn cael eu hegluro yn fy Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2000-2001 ac maent ar gael ar wefan SCA.

*Ystadegau*

Mae ystadegau ar gyfer awdurdodiadau i ymyrryd ag eiddo ac ar-wylio ymwthiol ar gyfer y llynedd a'r blynyddoedd blaenorol yn cael eu dangos yn y tablau yn Atodiadau A a B. Fel o'r blaen, nid wyf wedi nodi nifer yr awdurdodiadau a roddwyd gan bob asiantaeth ar wahân oherwydd gallai hyn

roi argraff gamarweiniol o'u harferion gweithredu. Troseddau'n ymwneud â chyffuriau yw prif darged yr awdurdodiadau o hyd.

### *Ymyrryd ag eiddo*

Rhoddwyd 2,483 o awdurdodiadau i ymyrryd ag eiddo yn 2003-2004, heb gyfrif rhai a adnewyddwyd, sy'n dangos ychydig iawn o newid oddi ar y blynyddoedd blaenorol (2,511 y llynedd).

Roedd 522 o achosion adnewyddu awdurdodiadau yn ystod 2003-2004, o gymharu â 543 y flwyddyn gynt. Dylid ymdrin â'r ffigyrau hyn fel dangosydd yn unig o faich gwaith SCA, gan fod rhai adnewyddiadau yn cyfeirio at yr un ymgyrch. Roedd 279 achos lle defnyddiwyd y darpariaethau brys a ganiateir yn y
ddeddfwriaeth. Yn ogystal, roedd tri achos lle rhoddwyd awdurdodiadau yn briodol yn absenoldeb y Prif Swyddog. Yn y flwyddyn flaenorol, roedd y ffigyrau hyn yn 244 a 2, yn y drefn honno. Mae'n ymddangos mai'r rheswm am y cynnydd yn nifer yr achosion brys yw bod Prif Gwnstabliaid i ffwrdd o'u heddluoedd yn delio â'r sefyllfa ddwysach o ran materion diogelwch.

Cafodd pum awdurdodiad eu diddymu, o gymharu ag un y llynedd. Nid oedd dau achos yn cyflawni'r meini prawf trosedd difrifol ac yr oedd y tri arall wedi methu'r prawf o fod yn angenrheidiol. Roedd hefyd [tbc] o achosion, gan nad oeddent yn dod o fewn y Ddeddf, lle nad oedd pŵer i ddiddymu neu ddileu'r awdurdodiad.

### *Ar-wylio Ymwthiol*

Cafwyd 447 o awdurdodiadau ar-wylio ymwthiol yn ystod 2003-2004, sy'n dangos peth gostyngiad o'i gymharu â 479 yn y flwyddyn flaenorol. Mae adnewyddu awdurdodiadau i'w weld yn cynyddu: Adnewyddwyd 92 eleni, o gymharu â 80 yn y flwyddyn flaenorol.

Defnyddiwyd darpariaethau brys mewn 30 awdurdodiad, gyda thri ohonynt wedi'u llofnodi yn absenoldeb y Prif Swyddog. Mae hyn yn cymharu â'r llynedd.

## Delio ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith

Yn unol ag ymarfer y Comisiynydd Cudd-Ymchwil a'r Comisiynydd Rhyng-gipio Negeseuon byddaf yn gofyn i Brif Swyddogion adrodd i mi bob gweithrediad gudd lle na chadwyd at y gofynion statudol a hefyd unrhyw achosion sydd yn methu yn y Llysoedd oherwydd diffygion mewn ar-wylio cudd. Cafwyd enghraifft rybuddiol dda yn achos R v Sutherland, ble chwalodd achos llofruddiaeth oherwydd bod amodau'r awdurdodiad am ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd wedi'u torri. Mae'r asiantaethau gorfodi'r gyfraith gorau eisoes wedi mabwysiadu'r arfer o adrodd yn wirfoddol. Mae'n sicrhau fod camgymeriadau a chamweddau yn cael eu dwyn i fy sylw cyn gynted ag y bônt yn digwydd, a gellir, os oes angen, eu hymchwilio ar unwaith gan un o fy Arolygwyr neu yn ystod arolygiaeth nesaf yr asiantaeth dan sylw.

Mae sawl pwnc yn parhau i achosi poendod i rai heddluoedd. Y cyntaf ymhlith y rhain yw'r rhai a adwaenir fel bwrglariaethau ailadroddus, ardaloedd sy'n nodedig am dorcyfraith (crime hotspots) ac awdurdod gweithredol. Mae 'bwrglariaethau ailadroddus' yn cyfeirio at achosion lle mae ar-wylio yn digwydd yng nghartrefi pobl fregus, yn aml mewn oed, sydd wedi cael eu targedu dro ar ôl tro gan ladron; mae 'ardaloedd sy'n nodedig am dorcyfraith' yn cyfeirio at achosion lle, yng ngoleuni eu profiad, mae swyddogion yr heddlu yn cynnal ar-wyliad neilltuol dros bob dim sydd yn digwydd mewn lleoedd cyhoeddus neilltuol; a mae 'awdurdod gweithredol' yn cyfeirio at bwerau yr honnir y defnyddir hwy ar gyfer rhesymau disgyblu i gynnal ar-wyliad o swyddogion yr awdurdod cyhoeddus dan sylw. Er bod y Comisiynwyr, wrth lunio'r darpariaethau statudol perthnasol, yn ceisio cyn belled ag y bo modd i gymryd ystyriaeth o'r anawsterau ymarferol sy'n wynebu heddluoedd, mae tueddiad i feio'r Comisiynwyr os yw'r canlyniad yn anfoddhaol.

Bu'n rhaid i mi ddiweddaru canllawiau am fwrglariaethau ailadroddus. Tra bo cael caniatâd y preswyliwr i osod dyfais ar-wylio ar y safle yn osgoi'r angen am awdurdodiad ymyrryd ag eiddo, rhaid i'r swyddogion awdurdodi ystyried a yw hi'n debygol fod preifatrwydd unigolyn arall sydd ar y safle'n gyfreithiol yn cael ei darfu. Mae unrhyw ymwelydd nad yw'n cael gwybod amdano yn destun ar-wylio cudd. Mae hyn yn doriad technegol ar hawliau Erthygl 8 yr ymwelydd, er gall unrhyw gwynion gael eu hystyried yn annhebygol fel rheol.

Yn llygaid y gyfraith, mae'r ar-wylio yn ymwthiol oherwydd ei fod yn cael ei weithredu mewn perthynas â phethau'n digwydd ar eiddo preswyl. Ond os nad yw'r drosedd sy'n cael ei dirnad yn annhebygol o arwain at o leiaf garchar am dair blynedd am drosedd gyntaf, ni ellir awdurdodi ar-wylio ymwthiol , oni bai bod cyfres o droseddau yn cyfateb i ymddygiad sydd yn arwain at enillion ariannol sylweddol. Ar y llaw arall, nid yw'r ar-wylio yn cael ei gyfarwyddo, oherwydd ei fod yn ymwthiol. Felly, nid oes unrhyw ffurf o awdurdodi ar gyfer ar-wylio cudd ar gael. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n fater i'r heddlu dan sylw a ydynt am fwrw ymlaen hebddo ai pheidio. Ond rhaid cydnabod mai dim ond trwy ddeddfwriaeth y gellir datrys yr anawsterau hyn.

Mae camerâu CCTV yn gyffredin iawn yn awr. Mae systemau adnabod wynebau yn cael eu defnyddio'n gynyddol. Pan ddefnyddir hwy mewn man lle sy'n nodedig am dorcyfraith i atal neu ddatgelu trosedd, dylid ceisio awdurdodiad am ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd, os yw'n debygol y bydd "gwybodaeth breifat" yn cael ei chaffael. Mae'r Llys Ewropeaidd yn rhoi dehongliad eang i'r ymadrodd hwnnw. Felly, synnwyr cyffredin fydd gwneud cais am awdurdodiad, yn enwedig gan fod hi'n aml yn haws dirnad tebygolrwydd ar ôl digwyddiad nag yr oedd i'w ragweld. Bydd gweld fod y ffurflen gais wedi'i llenwi'n gydwybodol yn arwain barnwr, os bydd yr awdurdodiad yn cael ei gwestiynu, i dueddu i'w ategu, os gall ef. Ond ar gyfer plismona arferol mae hyn yn ymarfer diflas, oherwydd, yn lle gallu defnyddio ateb synnwyr y fawd, rhaid asesu pob achos ar wahân, yn ôl ei ffeithiau ei hun.

Mae gennyf rywfaint o gydymdeimlad gyda'r cyfyng gyngor hwn. Ond oherwydd mai pwrpas adran 26(2) neu RIPA yw cymhwyso Erthygl 8 Cytundeb Ewrop ar Hawliau Dynol yng nghyd--destun ar-wylio cudd drwy warchod 'gwybodaeth breifat', mae'n anodd rhagweld diwygiad derbyniol a fyddai'n lliniaru anawsterau gweithredol yn sylweddol, wrth barhau i gynnig y warchodaeth honno.

Mae ‘awdurdod gweithredol’, yn cael ei ddyfynnu gan rai asiantaethau gorfodi'r gyfraith ac asiantaethau eraill pan fyddent yn dymuno cael y pŵer i ymchwilio materion disgyblaeth mewnol drwy ddulliau cudd. Yn absenoldeb trosedd, ni ellir awdurdodi ymchwilio drwy ddulliau o'r fath. Lle nad yw atal neu ddatgelu trosedd yn rhan o'r mater, byddai'n rhaid diwygio adrannau 28(3) a 29(3) RIPA drwy ychwanegu ‘ymchwilio i faterion disgyblaeth’ fel rheswm dros awdurdodi ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd a CHIS. Mater i'r Ysgrifennydd Gwladol yw penderfynu a yw'r ychwanegiad hwnnw yn angenrheidiol neu'n ddymunol.

# Ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd a ffynonellau cudd-ymchwil dynol (CHIS

Darparwyd ystadegau ar gyfer defnydd ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd a CHIS gan bob asiantaeth gorfodi'r gyfraith a'r mwyafrif o awdurdodau cyhoeddus eraill (ac eithrio yr awdurdodau hynny a ychwanegwyd i'r Atodlen o Offeryn Statudol 2003 Rhif 3171 a ddaeth i rym yn Ionawr 2004). Rhoddodd asiantaethau gorfodi'r gyfraith rhyw 26.986 o awdurdodiadau ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd rhwng y cyfnod 1 Ebrill 2003 i 31 Mawrth 2004, gyda 4.713 yn parhau yn eu lle ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. Mae hyn yn cymharu â 26.400 a 4.300, yn eu tro, yn y flwyddyn flaenorol.

Mewn perthynas ag awdurdodau cyhoeddus eraill, y gofynnwyd iddynt am y tro cyntaf eleni am y math hwn o wybodaeth ystadegol, rhoddwyd tua 6.398 o awdurdodiadau ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd yn ystod yr un cyfnod gyda 1,110 yn dal yn eu lle ar ddiwedd y flwyddyn yr adroddir amdani. Cyfeiriaf ar wahân at gyrff GIG ym mharagraff 13.

Mae'n anffortunus mai dim ond 2 allan o'r 22 Awdurdod Iechyd yng Nghymru a atebodd ein cais am ddata ystadegol am ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd. Nid oeddynt wedi rhoi unrhyw awdurdodiadau.

Roedd 5,907 CHIS wedi cael eu recriwtio gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn ystod y flwyddyn dan sylw, a chanslwyd 5.544 ohonynt yn ystod y flwyddyn ac yr oedd 4.865 yn parhau yn eu lle ar ddiwedd Mawrth 2004. Y ffigyrau ar gyfer y flwyddyn flaenorol oedd 5,900, 5,400 a 5,000 yn y drefn honno, yn dangos defnydd cymharol gyson o'r fath adnoddau.

Ar gyfer yr un cyfnod, recriwtiwyd 273 CHIS gan awdurdodau lleol, a chanslwyd 215 yn ystod y flwyddyn ac yr oedd 134 yn parhau yn eu lle ar ddiwedd Mawrth 2004.

Mae materion yn ymwneud ag ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd a CHIS yn cael eu harchwilio yn fanwl yn ystod arolygiadau awdurdodau cyhoeddus. Trafodir hwy hefyd gyda'r asiantaethau hyn pan fyddant yn cyfarfod yr Ysgrifennydd a'r Prif Arolygwr Ar-wylio. Cyflwynir problemau dehongli a phroblemau sylweddol eraill i'r Comisiynwyr i gael arweiniad.

Mae'r Corfflu Troseddau Cenedlaethol yn cydlynu adolygiad pwysig o unedau ffynonellau penodedig, timau wedi'u hyfforddi'n briodol ac yn dimau arbenigol iawn o reolwyr a thrinwyr ffynonellau. Mae cyflwyniad yr unedau hyn, sydd i'w cael yn awr yn y rhan fwyaf o heddluoedd y DU, wedi arwain at reolaeth llawer tynnach ar ffynonellau cudd-ymchwil dynol, ffocws priodol ar ansawdd yn hytrach na maint, a cheisiadau, awdurdodiadau ac asesiadau risg llawer gwell. Tra croesewir yr unedau hyn, mae'n amlwg bod angen adnoddau priodol arnynt.

# Arolygiadau yn gyffredinol

Cafwyd 263 o arolygiadau eleni, o gymharu â 276 y llynedd. Rhoddir blaenoriaeth o hyd i asiantaethau gorfodi'r gyfraith dros awdurdodau cyhoeddus eraill oherwydd gan mai hwy, yw prif ddefnyddwyr y pwerau, mae oblygiadau camddefnydd y pwerau yn fwy difrifol o ran potensial, a dim ond y hwy sydd gan y pŵer i roi awdurdodiadau am ymyrryd ag eiddo ac ar-wylio ymwthiol.

Efallai bydd o ddefnydd i mi ddisgrifio fy mhrif ddull o gyflawni fy nyletswydd i gadw gweithgareddau cudd asiantaethau gorfodi'r gyfraith mewn golwg. Arolygir pob un ohonynt gan arolygwr dros gyfnod o 4 neu 5 diwrnod. Pwrpas yr arolygiad yw archwilio'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer ar-wylio cudd a awdurdodwyd drwy statud. Yn ystod arolygiad arferol un o'r heddluoedd bydd yr Arolygwr yn cyfweld personél allweddol yn y pencadlys, yn cynnwys ymweld ag unedau perthnasol, yn asesu datblygiad drwy gyfeirio at yr argymhellion a wnaed y flwyddyn flaenorol, ac yn nodi materion pwysig. Bydd yr holl faterion hyn, ynghyd â'i gasgliadau am berfformiad yr heddlu dan sylw a'i argymhellion, yn cael eu gosod allan yn ei adroddiad.

Yn unol ag adran 62(4)(b)) RIPA ar ôl pob arolygiad mae'r Arolygwyr yn anfon ei adroddiad i mi. Wedi ei ystyried rwyf yn ei anfon i'r Prif Swyddog perthnasol ynghyd â llythyr eglurhaol, lle rwyf yn tynnu sylw at yr argymhellion a ystyriaf yn hanfodol. Yr wyf yn awr yn gofyn i bob Prif Swyddog am gynllun gweithredu'r gellir ei werthuso gan Gomisiynydd neu gennyf i cyn ymweld â'r awdurdod perthnasol. Yn ystod ymweliad o'r fath, rydym yn trafod y Cynllun gweithredu ac mae'r Prif Swyddog yn ymateb i'r adroddiad. Yn fy llythyrau i'r Prif Swyddogion rwyf yn aml yn pwysleisio'r pwysigrwydd rwyf yn ei osod ar eu rôl bersonol mewn sicrhau fod safonau priodol yn cael eu gosod a'u cynnal. Nid yw'n ddigon cytuno ar gynllun gweithredu yn unig. Rhaid cymryd camau i sicrhau fod uwch swyddogion yn cael eu briffio ar weithrediad cynlluniau o'r fath ac unrhyw rwystr i'w gyflawniad a bod prif swyddogion yn cymryd pa gamau bynnag sy'n angenrheidiol yn eu barn hwy sicrhau cydymffurfiaeth briodol â'r ddeddfwriaeth.

Mae'n dda gennyf adrodd fod y cyfan o'r 442 awdurdodau lleol ym Mhrydain Fawr wedi cael eu harolygu erbyn hyn. Er bod gwelliannau sylweddol yn y gydymffurfiaeth gyffredinol â darpariaethau Deddf yr Heddlu 1997 a RIPA ers cyflwyno'r Deddfau , mae arwyddion fod rhai awdurdodau cyhoeddus yn methu cynnal y safonau gofynnol. Mae'r broses arolygu dros y flwyddyn ddiwethaf wedi dangos llawer o enghreifftiau o ymarfer da a chamgymeriadau eithaf sylfaenol.

O'r dadansoddiadau perfformiad a roddir isod gwelir fod gan ganran helaeth o'r awdurdodau lleol bolisïau, gweithdrefnau neu drefniadau hyfforddi yn is na'r safon ofynnol Ond cadarnhawyd hyn yn yr arolygiad cyntaf. Yn dilyn yr arolygiad hwnnw gellir disgwyl gwelliant sylweddol, ac unwaith y bydd wedi'i gyflawni, bydd yn debygol o gael ei gynnal, yn y rhan fwyaf o achosion.

Lle codwyd pryderon neilltuol, cynhelir arolygiadau ychwanegol arbennig. Yn y cyfnod hwn, rwyf wedi galw am bum arolygiad pellach o'r fath mewn heddluoedd (pedwar o'r rhain mewn perthynas â CHIS) a phump arall mewn awdurdodau lleol.

# Arolygu Asiantaethau gorfodi'r gyfraith

Gellir diffinio asiantaethau gorfodi'r gyfraith fel y cyrff hynny a awdurdodir i ddefnyddio ar-wylio ymwthiol. Mae Asiantaeth Gorfodi Cyffuriau yr Alban yn cael ei gynnwys am fod ganddi gysylltiad agos â heddluoedd yn yr Alban er nad yw eto wedi cael y pwer i awdurdodi ar-wylio o'r fath. Roedd y 62 arolygiad o asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn ystod y flwyddyn yn cynnwys 44 o luoedd heddlu yng Nghymru a Lloegr, saith o luoedd heddlu'r Alban, Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon, Y Corfflu Troseddau Cenedlaethol, y Gwasanaeth Cudd-Ymchwil Troseddol, Tollau Tramor a Chartref Ei Mawrhydi, Asiantaeth Gorfodi Cyffuriau yr Alban, Lluoedd ei Mawrhydi yng Ngogledd Iwerddon, Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn, Cangen Reoleiddio'r Llynges Frenhinol, yr Heddlu Milwrol Brenhinol, Heddlu'r Llu Awyr Brenhinol a Heddlu Trafnidiaeth Prydain.

Rwyf yn ailadrodd y pwynt a wnaed yn adroddiad y llynedd sef, er fy mod yn gallu argymell i Brif Swyddogion yr hyn y dylent ei wneud, mater iddynt hwy yw penderfynu'r ffordd orau o'i wneud, yn enwedig pan fydd yr adnoddau sydd ar gael iddynt yn gyfyngedig iawn.

## *Arferion gwael ac arferion da*

Cyhoeddwyd rhestr fanwl bellach am y pwyntiau da a'r pwyntiau drwg a nodwyd yn ystod arolygiadau asiantaethau gorfodi'r gyfraith. Roedd arfer da nodedig yn cynnwys datblygiad swyddfeydd awdurdodau canolog wedi'u staffio yn ôl arbenigwyr pwnc, creu cyfundrefnau sicrhau ansawdd effeithiol, swyddogion sydd wedi cael eu cyfarwyddo i ymgymryd ag ymgyrchoedd cudd yn cydnabod eu bod wedi gweld a deall telerau yr awdurdodiad (yn codi o R v Sutherland), ac yn gwneud y dewis diogel os oes unrhyw amheuaeth a ddylid ceisio awdurdodiad, a gwefannau a chylchlythyrau RIPA creadigol.

Mae pwyntiau arferion gwael yn cynnwys ceisiadau ac awdurdodiadau nad ydynt yn ddigon penodol, mynd ymhellach na thelerau'r awdurdodiad, adolygiadau yn cael eu dirprwyo gan swyddogion awdurdodi, cod ymarfer ddim ar gael yn rhwydd i ymarferwyr a hyfforddiant ac addysg RIPA annigonol.

Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddodd un o'r papurau cenedlaethol erthygl a briodolodd i un asiantaeth gorfodi'r gyfraith neilltuol yr holl neu'r rhan fwyaf o bwyntiau arfer gwael yr oedd SCA wedi'u nodi.

Ni ellir pwysleisio'n ddigonol fod hyn yn gamddealltwriaeth llwyr. Mae'r eitemau arfer gwael ac arfer da a restrwn ni wedi'u casglu o adroddiadau arolygu tua 60 o asiantaethau gorfodi'r gyfraith. Fe'u bwriadir i'w defnyddio fel rhestr wirio y gall yr adran berthnasol ym mhob awdurdod gyfeirio atynt ac ystyried ei arferion gwaith ei hun. Nid yw unrhyw asiantaeth unigol yn debygol o fod yn euog o fwy nag ychydig o arferion gwael.

Cymerwyd amrywiaeth o gyfleodd i danlinellu manteisio arfer da a pheryglon arferion gwael. Lle caniataodd eu hymrwymiadau, mae'r Arolygwyr wedi annerch amrywiaeth eang o ddigwyddiadau hyfforddi cenedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys: cyrsiau i ddirprwy brif gwnstabliaid, swyddogion awdurdodi, rheolwyr gorfodaeth gudd y gyfraith a rheolwyr ar-wylio a ffynonellau. Mae Comisiynwyr Cynorthwyol ac Arolygwr wedi annerch seminarau a chynadleddau priodol hefyd.

### *Themâu cylchol*

Wrth ymweld ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn dilyn arolygiadau, mae Comisiynwyr wedi canfod fod sawl testun yn codi dro ar ôl tro: hyfforddiant, rheolaeth CHIS, dosbarthiad cysylltiadau cyfrinachol, arolygiaeth fewnol gan swyddfa ganolog, ansawdd a digonolrwydd ceisiadau ac awdurdodiadau ar gyfer ar-wylio yn ôl
cyfarwyddyd, a mannau neilltuol sy'n nodedig am dorcyfraith (a'r pwnc perthynol -gwybodaeth breifat) y cyfeiriaf atynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Materion am drafodaeth gyffredinol oedd
diffyg cydlynu rhaglenni hyfforddi yng Nghymru a Lloegr, defnydd cyfyngedig gweithgareddau cudd yn yr
Alban, a digonolrwydd 10.1 System Rheoli Hysbyswr yr Heddlu (PIMS), er deallaf fod hyfforddiant Deddf yr Heddlu 1997 a RIPA yn awr yn cael ei gynnwys yn hyfforddiant heddweision ar brawf yng Nghymru a Lloegr lle rwyf yn rhagweld y bydd disgwyl i arolygiadau yn y dyfodol gydnabod manteision y buddsoddiad hwnnw.

Ym mharagraff 9.2.10 fy Adroddiad Blynyddol y llynedd cyfeiriais at bwysigrwydd amlwg bod Cyfarwyddwr Asiantaeth Gorfodi Cyffuriau'r Alban yn cael yr hawl i awdurdodi gweithgareddau cudd yr asiantaeth. Anwybyddwyd yr argymhelliad hwn. Felly, heb fymryn llai o barch ond yn fwy grymus, rwyf yn ailadrodd yr argymhelliad. Rwyf yn fodlon, oni bai fod y Cyfarwyddwr yn cael yr hawl hwn, mae gweithgareddau cudd sydd yn gorfod cael eu gweithredu gan AGCA fel asiant i luoedd eraill, yn debygol o gael eu cyfaddawdu.

# Arolygu Adrannau'r Llywodraeth a chyrff cysylltiedig

Cynhaliwyd 12 arolygiad o Adrannau'r Llywodraeth a chyrff cysylltiedig:

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Adran Drafnidiaeth (TRANSEC & Sefydliad Gwasanaethau Cerbydau & Gweithrediadau)
Y Swyddfa Gartref (Gwasanaeth Mewnfudo & Gwasanaeth Carchardai)
Asiantaeth Gwasanaethau Ariannol

Yr Asiantaeth Diogelwch Bwyd
Swyddfa Gogledd Iwerddon (Gwasanaeth Carchardai)
Gweithrediaeth yr Alban (Asiantaeth Gwasanaethau Cyffredin, The Accountant in Bankruptcy, Gwasanaeth Carchardai Yr Alban)
Gweithrediaeth Cymru (Cynulliad Cenedlaethol Cymru).

Mae ail-ddosbarthu sylweddol o awdurdodau heblaw'r heddluoedd wedi arwain at y Comisiynwyr Cynorthwyol yn cymryd cyfrifoldeb dros arolygu y rhan fwyaf o adrannau ac asiantaethau'r Llywodraeth. Bydd y rhai mwy cymhleth yn cael eu harolygu ar y cyd â'r Arolygwyr.

Mae'r deuddeg arolygiad hyd yn hyn yn cynrychioli amrywiaeth o Adrannau'r Llywodraeth sydd yn defnyddio ar-wylio cudd am eu maes gwaith gorfodi hwy. Mae rhai yn parhau i wneud defnydd sylweddol o bwerau ar-wylio cudd a CHIS. Gwellodd y rhan fwyaf yn sylweddol o ganlyniad i weithredu argymhellion arolygiadau SCA blaenorol. Mae'n anffortunus bod rhai yn parhau yn wael yn gyson, gyda'r un argymhellion yn cael eu hailadrodd ar ôl ymweliadau pellach. Rwyf yn bwriadu cadw mewn cof y cwestiwn a ddylai'r rhai sy'n gwneud defnydd cyfyngedig neu ddim defnydd o weithgareddau cudd barhau i gael yr hawl i'w hawdurdodi.

# Arolygu Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Lloegr

*Cymru a Lloegr*

Derbyniwyd fy argymhelliad yn fy Adroddiad Blynyddol diwethaf y dylid diddymu cynghorau plwyf o Atodlen 1 RIPA, ac fe'u gadawyd allan o Orchymyn RIPA 2003.

Yng ngoleuni'r defnydd a wneir gan luoedd yr heddlu o systemau CCTV yr awdurdodau lleol, mae'r Comisiynwyr Cynorthwyol a'r Arolygwyr yn ystod eu harolygiadau yn archwilio unrhyw drefniadau a wneir i'r perwyl hwnnw. Rwyf yn ei ystyried yn arfer da i lunio protocol byr, o dan arweiniad yr heddlu, o ddewis, i ffurfioli'r gweithdrefnau sydd i'w defnyddio.

Datblygwyd gwefan SCA yn y lle cyntaf ym Mehefin 2002 er mwyn hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd a chynorthwyo awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill. Diweddarwyd y wefan ym Mehefin 2003, gyda diwygiadau pellach i ddod ar ddiwedd Ebrill 2004. Bu 15,074 o ymweliadau â'r safle yn ystod y flwyddyn, gyda bron i 13.500 ohonynt yn ymwelwyr gwahanol. Ein tudalennau mwyaf poblogaidd yw ein tudalen "Gartref" a'n hadran "Cyngor a Chanllawiau". Cynhyrchwyd fersiwn Gymraeg o'n gwefan hefyd. Yn gyffredinol, mae adborth gan awdurdodau lleol ac ymwelwyr eraill yn parhau yn gadarnhaol iawn.

Rydym wedi arolygu 184 awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr yn ystod blwyddyn yr adroddiad.

Tra nad yw'n unrhyw ran o ddyletswydd SCA i roi cyfarwyddyd i awdurdodau cyhoeddus yng ngweithrediad eu pwerau a'u cyfrifoldebau o dan RIPA, mae'r Comisiynwyr Cynorthwyol wedi ceisio eu helpu drwy annerch seminarau lle bynnag y gallent.

Rwyf hefyd wedi cytuno y dylai Ysgrifennydd SCA sefydlu, ynghyd â'r awdurdodau lleol, grŵp, tebyg i'r un a sefydlwyd i asiantaethau gorfodi'r gyfraith, i ystyried materion ymarfer a dehongli.

## *Awdurdodau Metropolitan ac Unedol*

Yn ystod 2003-2004 arolygwyd 34 awdurdod metropolitan ac unedol, o gymharu â 101 y llynedd. Y rheswm am y gostyngiad hwn yw'r ffaith fod y rhan fwyaf o'r awdurdodau unedol wedi cael eu harolygu'r llynedd.

Roedd 12 arolygiad o gynghorau metropolitan. Roedd gan ddwy ran o dair o'r holl 36 cyngor metropolitan a arolygwyd polisïau, gweithdrefnau a threfniadau hyfforddi yn eu lle a aseswyd yn foddhaol neu well, ac yr oedd dwy ran o dair o'r awdurdodiadau am ar-wylio yn ôl cyfarwydd yn foddhaol neu well. Roedd bron i hanner ddim yn defnyddio CHIS.

Cafwyd naw arolygiad o gynghorau unedol. Roedd gan lai na hanner o'r 47 cyngor unedol a arolygwyd bolisiau a aseswyd yn foddhaol neu well, dim ond chwarter oedd gan weithdrefnau yn eu a aseswyd yn foddhaol neu well ac yr oedd gan bron i hanner drefniadau hyfforddi boddhaol neu well. Dim ond hanner yr awdurdodiadau ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd a archwiliwyd oedd yn foddhaol neu uwch. Roedd bron i ddwy ran o dair ddim yn defnyddio CHIS o gwbl.

## *Cynghorau Sir*

Arolygwyd y pum Cyngor Sir oedd yn weddill eleni.

Roedd gan dros hanner y 34 Cyngor Sir a arolygwyd erbyn hyn bolisiau a aseswyd yn foddhaol i ardderchog, roedd gan ddwy ran o dair weithdrefnau a aseswyd yn gyffelyb ac yr oedd gan dros hanner drefniadau hyfforddi a ystyriwyd yn foddhaol neu well. Roedd un rhan o dair ddim yn defnyddio CHIS. Roedd dros ddwy ran o dair o awdurdodiadau ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd yn cael eu hystyried yn foddhaol neu well.

## *Cynghorau Dosbarth*

Roedd 138 arolygiad o Gynghorau Dosbarth yn ystod 2003-2004, o gymharu â 63 y llynedd. Mae hyn yn gynnydd sylweddol oherwydd i ni ganolbwyntio ar Awdurdodau Unedol y llynedd, felly roedd llai o arolygiadau o awdurdodau lleol eraill.

Mae'r cyfan o'r 238 Cyngor Dosbarth wedi cael eu harolygu'n awr. Mae defnydd ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd yn cael ei ddeall yn well ac mae ansawdd yr awdurdodiadau wedi gwella. Er bod defnydd CHIS hefyd yn cael ei ddeall yn well, anaml y bydd yn cael ei awdurdodi. Erbyn yr amser y cawsant eu harolygu roedd dros hanner y Cynghorau Dosbarth wedi llunio polisïau a gweithdrefnau ynghyd â rhaglenni hyfforddi corfforaethol priodol. Felly, mae cydymffurfiaeth gyda RIPA wedi gwella. Mae'r defnydd a wneir o weithgareddau cudd yn parhau yn brin a'r safon perfformiad yn isel. Mae arweiniad effeithiol gan brif weithredwr neu uwch gyfreithiwr yn parhau i hybu canlyniadau gwell.

*Yr Alban*

Arolygwyd y pum Cyngor Sir oedd yn weddill yn yr Alban, ynghyd ag un cyngor arall a ail-arolygwyd ar fy nghyfarwyddyd i. Er nad oedd chwarter o'r holl gynghorau yn yr Alban ddim yn defnyddio ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd o gwbl a bron i dri chwarter ddim yn defnyddio CHIS, roedd gan y mwyafrif bolisiau a gweithdrefnau RIP(S)A yn eu lle ac yr oedd gan bron i hanner raglenni hyfforddi boddhaol.

# Arolygu Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

## *yng Nghymru a Lloegr*

Nid ydym wedi arolygu unrhyw Ymddiriedolaethau GIG neu Awdurdodau Iechyd Arbennig yn ystod y cyfnod adrodd hwn, er arolygwyd Gwasanaeth Gwrthdwyll a Diogelwch y Gwasanaeth Iechyd (CFSMS) ym Mawrth 2003.

Yn fy Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2001-2002, argymhellais "(a) y dylai'r holl waith ar-wylio cudd (ac nid yn unig yr hyn sy'n ymwneud â thwyll a llygredigaeth) yn cael ei gynnal ar ran holl gorff y GIG yng Nghymru a Lloegr (Gwasanaeth gwrthdwyll y GIG fel enwyd GGDGI gynt), a (b) ac y dylid dileu'r holl gyrff GIG to Ran II Atodlen 1 RIPA". Yn fy Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2002-2003, cydnabyddais fod y GIG mewn cyfnod o newid, a phenderfynais aros i weld sut oed dy GIG yn cael ei ad-drefnu ac a fyddai pwerau ar-wylio cudd yn cael eu hail-leoli, cyn penderfynu sut i adolygu'r ar-wylio cudd a weithredir gan gyrff GIG.

Yn awr mae 19 Awdurdod Iechyd Arbennig, 270 Ymddiriedolaethau GIG yn Lloegr a 22 Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru a phob un yn meddu'r hawl i gynnal ar-wylio cudd i ddibenion atal neu ddatgelu trosedd neu i atal anhrefn ac i'r pwrpas o warchod iechyd y cyhoedd. Mae ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd a defnydd CHIS i'r 24 Ymddiriedolaethau GIG a'r 15 Byrddau Iechyd Ardal yn yr Alban yn cael eu gweithredu ar eu rhan gan yr Asiantaeth Gwasanaethau Cyffredin.

Rhoddodd yr Ymddiriedolaethau GIG yn Lloegr a atebodd ymholiad diweddar o'm Swyddfa i, gyfanswm, rhyngddynt, o 37 awdurdodiadau ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd. O'r rhain, rhoddodd 2 Ymddiriedolaeth gyfanswm o 11 awdurdodiad a rhoddwyd y 26 arall gan 17 Ymddiriedolaeth. Rhoddodd yr 16 Awdurdod Iechyd Arbennig 27 awdurdodiad, gyda 20 ohonynt wedi'u rhoi gan GGDyGIG, sydd yn cael ei arolygu gan fy Swyddfa i, a bydd yn parhau i gael ei arolygu gennyf. Roedd pump o'r 20 awdurdodiad GGDIyGIG wedi'u cyfeirio gan Ymddiriedolaethau GIG am faterion o dwyll a llygredigaeth lle'r oedd GGDyGIG wedi awdurdodi a gweithredu'r gwaith.

Yng ngoleuni'r ystadegau hyn, rhaid i mi ailadrodd fy argymhellion blaenorol ond gyda mwy o rym. Mae'r defnydd a wneir o ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd gan y cyrff hyn (ar wahân i GGDyGIG) yn fychan iawn ac mae eu diddordeb ynddo yr un mor fychan. Gan fod ganddynt ddiffyg gwybodaeth, adnoddau, hyfforddiant a chymhelliant, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn y sefyllfa hollol annymunol o gael y gallu i weithredu ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd, heb fodd bynnag, y cymhwysedd i wneud hynny. Felly, mae'r risg y bydd unrhyw weithgareddau cudd a wnânt yn anghyfreithlon yn sylweddol. Dyna pam mai'r unig ateb boddhaol yw, fel yn yr Alban, i roi i un

corff canolog, megis GGDGI, y pwerau i weithredu gweithgareddau cudd ar ran Ymddiriedolaethau GIG unigol ac Awdurdodau Iechyd Arbennig eraill. Dylai'r holl gyrff hynny, wedyn, gael eu diddymu oddi ar Atodlen 1 RIPA gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

## Arolygu cyrff cyhoeddus eraill

Arolygwyd Y Post Brenhinol (Consignia gynt) a'r Swyddfa Twyll Difrifol (STD) eleni. Adroddodd STD benderfyniad polisi y byddai'n ddefnydd adnoddau na ellid ei gyfiawnhau i hyfforddi a chynnal ei weithwyr ei hun i weithredu ar-wylio cudd ac i reoli unrhyw hysbyswr potensial. Rwyf yn ei ystyried yn groes i egwyddor fod unrhyw awdurdod cyhoeddus yn mwynhau pwer statudol nad yw ei swyddogion wedi eu hyfforddi a'u paratoi i'w weithredu'n briodol, oherwydd cyn belled ag y mae'r pwer yn parhau ni ellir rhwystro'r swyddogion rhag ei ddefnyddio, beth bynnag yw lefel eu medrusrwydd neu ddiffyg hynny.. Nid yw'r STD wedi awgrymu fod unrhyw weithgareddau cudd na allant alw ar yr heddlu i'w gweithredu. Yn yr amgylchiadau hyn, mater i'r Ysgrifennydd Gwladol yw penderfynu ymarfer ei bŵer o dan adran 30(5) RIPA i ddiwygio Atodlen 1 drwy ddiddymu STD o'r Atodlen honno.

## Blaenoriaethau arolygu

Yn awr fod pob awdurdod lleol wedi cael ei arolygu, rhaid ceisio blaenoriaethu. Mae'n bwnc anodd. Y pwrpas yw penderfynu'r ffordd orau o flaenoriaethu'r arolygiadau fel bod y gwahanol fathau o awdurdodau (ac eithrio asiantaethau gorfodi'r gyfraith) yn cael eu harolygu mor aml ag sydd ei angen, wrth wneud defnydd effeithlon o'r adnoddau sydd ar gael.

Nid oedd unrhyw awdurdod lleol yn gweithredu ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd i raddfa fawr ac ychydig iawn oedd yn defnyddio neu weithredu CHIS. Felly, ni ellid cyfiawnhau arolygiadau mynych. Ar y llaw arall, mae diffyg defnydd  yn gweithio yn erbyn gwelliannau sy'n digwydd drwy ymarfer, a gall newidiadau staff  amharu perfformiad ar unwaith.

Rwyf wedi dod i'r casgliad, erbyn ail rownd yr arolygiadau, y dylai awdurdodau lleol, Unedol, Metropolitan, Bwrdeistrefi Llundain, Cynghorau Cymru a'r Alban gael eu harolygu bob yn ail flwyddyn a Chynghorau Sir a Dosbarth unwaith  bob tair blynedd. Gosodir hyn allan yn Atodiad E Bydd perfformwyr nodedig o wan angen arolygiadau amlach, tra bo'r rhai sydd yn gyson dda yn gallu cael eu harolygu yn llai aml. Cyn belled ag y bo'n bosibl, cynhelir arolygiadau gan Gomisiynwyr Cynorthwyol ac Arolygwyr ar yn ail.

# Y flwyddyn sydd i ddod

Yn yr awdurdodau cyhoeddus hynny lle mae safonau yn dechrau llithro byddaf yn edrych am fwy o gyfraniad a chyfeiriad gan Brif Swyddogion. Er mwyn hwyluso cymhariaeth o berfformiad awdurdodau cyhoeddus, rwyf hefyd yn ystyried cyflwyno system o asesu eu rheolaeth o weithgareddau cudd.

Fel dywedais yn gynharach, byddaf yn gofyn i bob Prif Swyddog adrodd i mi am bob gweithgaredd gudd lle na chadwyd at y gofyniadau statudol a hefyd unrhyw achosion sydd yn methu yn y Llysoedd o achos diffygion mewn ar-wylio cudd.

Byddaf yn parhau i fonitro'n agos ddatblygiadau technegol megis sganwyr corff, systemau adnabod wynebau a system awtomatig ar gyfer Adnabod Platiau Rhifau yn sicrhau nad yw eu defnydd yn tramgwyddo'r ddeddfwriaeth diogelu preifatrwydd.

Rydym yn dal i aros am gyflwyniad Rhan III RIPA (yn ymdrin â materion seiffro) yn unol â hon y bydd gan y Comisiynwyr a minnau gyfrifoldebau.

ATODIAD A

AWDURDODIADAU A RODDWYD DAN RAN II DEDDF HEDDLU 1997 (DIWYGIAD) ODDI AR EU GWEITHREDU

| | 1999 - 2000 | | | 2000 - 2001 | | | 2001 - 2002 | | | 2002 - 2003 | | | 2003 - 2004 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Lloegr, Cymru & G.I. | Yr Alban | Cyfan | Lloegr, Cymru & G.I. | Yr Alban | Cyfan | Lloegr, Cymru & G.I. | Yr Alban | Cyfan | Lloegr, Cymru & G.I. | Yr Alban | Cyfan | Lloegr, Cymru & G.I. | Yr Alban | Cyfan |
| **Cyfanswm nifer yr Awdurdodiadau (heb gynnwys adnewyddiadau)** | 2,401 | 58 | 2,459 | 2,509 | 58 | 2,567 | 2,437 | 82 | 2,519 | 2,424 | 87 | 2,511 | 2,340 | 143 | 2,483 |
| CYMERADWYAETH YMLAEN LLAW | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| | Lloegr, Cymru & G.I. | Yr Alban | Cyfan | Lloegr, Cymru & G.I. | . Yr Alban | Cyfan | Lloegr, Cymru & G.I. | Yr Alban | Cyfan | Lloegr, Cymru & G.I. | Yr Alban | Cyfan | Lloegr, Cymru & G.I. | Yr Alban | Cyfan |
| Nifer achosion angen cymeradwyaeth * | 311 | 12 | 323 | 367 | 8 | 375 | 299 | 7 | 306 | 281 | 18 | 299 | 269 | 21 | 290 |
| Achosion angen cymeradwyaeth o flaen llaw yn ôl categori: | | | | | | | | | | | | | | | |
| • Annedd | 198 | 7 | 205 | 238 | 7 | 245 | 204 | 3 | 207 | 190 | 13 | 203 | 174 | 7 | 181 |
| • Swyddfa | 60 | 1 | 61 | 45 | 0 | 45 | 37 | 2 | 39 | 38 | 2 | 40 | 29 | 10 | 39 |
| • Llofft gwesty | 50 | 4 | 54 | 77 | 1 | 78 | 56 | 2 | 58 | 49 | 3 | 52 | 63 | 4 | 67 |
| • Materion braint gyfreithiol | 1 | 0 | 1 | 4 | 0 | 4 | 1 | 0 | 1 | 2 | 0 | 2 | 2 | 0 | 2 |
| • Deunydd newyddiadurol cyfrinachol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| • Gwybodaeth bersonol gyfrinachol | 4 | 0 | 4 | 3 | 0 | 3 | 1 | 0 | 1 | 2 | 0 | 2 | 1 | 0 | 1 |

**ATODIAD B**

**DADANSODDIAD O AWDURDODIADAU A RODDWYD DAN RAN III DEDDF HEDDLU 1997 (DIWYGIAD) ODDI AR EU GWEITHREDU YN ÔL TROSEDD**

| | 1999-2000 | | | 2000-2001 | | | 2001-2002 | | | 2002-2003 | | | 2003-2004 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Lloegr Cymru & G.I | Yr Alban | Cyfan | Lloegr Cymru & G.I | Yr Alban | Cyfan | Lloegr Cymru & G.I | Yr Alban | Cyfan | Lloegr Cymru & G.I | Yr Alban | Cyfan | Lloegr Cymru & G.I | Yr Alban | Cyfan |
| Ymosodiad | 7 | 0 | 7 | 15 | 0 | 15 | 1 | 0 | 11 | 10 | 0 | 10 | 7 | 3 | 10 |
| Bwrglera/Lladrad | 170 | 0 | 170 | 140 | 0 | 140 | 150 | 1 | 151 | 96 | 3 | 99 | 110 | 1 | 111 |
| Cynllwynio | 34 | 9 | 43 | 37 | 1 | 38 | 33 | 1 | 34 | 47 | 0 | 47 | 35 | 0 | 35 |
| Masnachu cyffuriau | 1664 | 54 | 1718 | 1458 | 50 | 1508 | 1428 | 67 | 1495 | 1325 | 70 | 1395 | 1275 | 116 | 1391 |
| Troseddau Drylliau Tanio yn cynnwys lladrad arfog | 191 | 0 | 191 | 152 | 0 | 152 | 123 | 1 | 124 | 131 | 1 | 132 | 116 | 3 | 119 |
| Herwgipio/cribddeilio | 28 | 0 | 28 | 36 | 1 | 37 | 32 | 0 | 32 | 46 | 0 | 46 | 20 | 1 | 21 |
| Gwyngalchu arian | 28 | 0 | 28 | 35 | 0 | 35 | 30 | 0 | 30 | 30 | 0 | 30 | 37 | 0 | 37 |
| Llofruddiaeth/colli einioes | 199 | 9 | 208 | 198 | 6 | 204 | 156 | 8 | 164 | 168 | 3 | 171 | 170 | 2 | 172 |
| twyllo trethi | 54 | 0 | 54 | 194 | 0 | 194 | 242 | 0 | 242 | 130 | 0 | 130 | 116 | 0 | 116 |
| Terfysgaeth | 224 | 0 | 224 | 136 | 0 | 136 | 116 | 0 | 116 | 170 | 1 | 170 | 171 | 6 | 177 |
| Arall* | 282 | 4 | 286 | 108 | 0 | 108 | 110 | 3 | 113 | 132 | 5 | 132 | 108 | 10 | 118 |

*DS: 10 categori uchaf o droseddau Ni fyddant yn cyfateb i gyfanswm yr awdurdodiadau gan y gellir cynnwys mwy nag un drosedd ar gyfer awdurdodiadau.*

ATODIAD C

Adroddiad Blynyddol y Prif Gomisiynydd Ar-wylio i'r Prif Weinidog a Gweinidogion yr Alban am 2003-2004

AWDURDODIADAU A RODDWYD DAN RAN II DEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIOL 2000
A DEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIOL (YR ALBAN) 2000 ERS EU GWEITHREDU

| | 2000-2001 | | | 2001-2002 | | | 2002-2003 | | | 2003-2004 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Lloegr, Cymru & G.I. | Yr Alban | Cyfanswm | Lloegr, Cymru & G.I. | Yr Alban | Cyfanswm | Lloegr, Cymru & G.I. | Yr Alban | Cyfanswm | Lloegr, Cymru & G.I. | Yr Alban | Cyfanswm |
| Cyfanswm nifer yr Awdurdodiadau (heb gynnwys adnewyddiadau) | 302 | 10 | 312 | 480 | 13 | 493 | 461 | 14 | 475 | 437 | 10 | 447 |
| Achosion yn ôl categori | | | | | | | | | | | | |
| • Modur preifat | 112 | 5 | 117 | 178 | 7 | 185 | 173 | 3 | 176 | 126 | 0 | 126 |
| • Eiddo preswyl | 190 | 5 | 195 | 302 | 6 | 308 | 288 | 11 | 299 | 311 | 10 | 321 |

**ATODIAD D**

**DADANSODDIAD O AWDURDODIADAU A RODDWYD O DAN RAN II DEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIOL A DEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIOL (YR ALBAN) 2000 ODDI AR EU GWEITHREDU YN ÔL TROSEDD**

| | 2000-2001 | | | 2001-2002 | | | 2002-2003 | | | 2003-2004 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Lloegr, Cymru & G.I | Yr Alban | Cyfanswm | Lloegr, Cymru & G.I | Yr Alban | Cyfanswm | Lloegr, Cymru & G.I | Yr Alban | Cyfanswm | Lloegr, Cymru & G.I | Yr Alban | Cyfanswm |
| Ymosodiad | 2 | 0 | 2 | 8 | 0 | 8 | 8 | 8 | 8 | 8 | 0 | 8 |
| Bwrglera/Lladrad | 8 | 0 | 8 | 11 | 0 | 11 | 13 | 0 | 13 | 15 | 0 | 15 |
| Cynllwynio | 7 | 0 | 7 | 14 | 1 | 15 | 13 | 0 | 13 | 4 | 0 | 4 |
| Masnachu cyffuriau | 131 | 7 | 138 | 226 | 8 | 234 | 175 | 10 | 185 | 162 | 8 | 170 |
| Troseddau Drylliau Tanio *(yn cynnwys lladrad arfog)* | 17 | 0 | 17 | 18 | 0 | 18 | 39 | 0 | 39 | 18 | 1 | 19 |
| Herwgipio/cribddeilio | 4 | 0 | 4 | 3 | 0 | 3 | 13 | 0 | 13 | 11 | 0 | 11 |
| Gwyngalchu arian | 80 | 3 | 83 | 124 | 4 | 128 | 6 | 0 | 6 | 4 | 0 | 4 |
| Twyllo trethi | 15 | 0 | 15 | 21 | 0 | 21 | 12 | 0 | 12 | 3 | 0 | 3 |
| Terfysgaeth | 10 | 0 | 10 | 12 | 0 | 12 | 25 | 0 | 25 | 22 | 0 | 22 |
| Arall * | 24 | 0 | 24 | 27 | 0 | 27 | 23 | 1 | 24 | 36 | 0 | 36 |

**mae'n cynnwys troseddau megis mewnfudo anghyfreithlon wedi'u drefnu, llwgrwobrwyo & llygru a throseddau rhyw.*

# Blaenoriaethau Arolygu

Yn adroddiad blynyddol diwethaf  y Prif Gomisiynydd Ar-wylio, soniodd am yr angen i benderfynu blaenoriaeth, yn ogystal ag amlder, arolygiadau awdurdodau. Wedi cael blwyddyn arall o dystiolaeth o arolygiadau cytunwyd ar y blaenoriaethau canlynol:

## *Arolygiad blynyddol*

Lluoedd heddlu Cymru a Lloegr
Lluoedd heddlu yr Alban
Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon
Y Corfflu Troseddau Cenedlaethol
Y Gwasanaeth Cudd-ymchwil Troseddol Cenedlaethol
Tollau Tramor a Chartref Ei Mawrhydi
Heddlu Rheilffordd Prydain
Lluoedd Ei Mawrhydi yng Ngogledd Iwerddon
Cyllid y Wlad
Asiantaeth Gorfodaeth Cyffuriau'r Alban
Gwasanaeth Mewnfudo a Gwasanaeth Carchardai'r Swyddfa Gartref
Adran Gwaith a Phensiynau
Asiantaeth yr Amgylchedd
Y Post Brenhinol

## *Arolygiad bob yn ail flwyddyn*

Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig
Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Gwasanaeth Gwrthdwyll yr Adran Iechyd
Adran Masnach a Diwydiant
Adran Drafnidiaeth
Awdurdodau Lleol - Unedol, Metropolitan, Bwrdeistrefi Llundain, Cynghorau yr Alban & Chymru
Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn
Heddlu'r Llu Awyr Brenhinol
Cangen Reoleiddio'r Llynges Frenhinol
Heddlu Milwrol Brenhinol
Asiantaeth Gwasanaethau Cyffredin GIG Yr Alban

## *I'w harolygu yn eu tro mor aml ag y mae'r ddau gategori cyntaf yn caniatáu*

Awdurdod Gwasanaethau Ariannol
Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Comisiynydd Gwybodaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
GIG Cymru a Lloegr

Gwasanaeth Carchardai Gogledd Iwerddon
Y Swyddfa Masnachu Teg
Swyddfa'r Ombwdsman yr Heddlu yng Ngogledd Iwerddon
Asiantaeth Cyfathrebu Radio
Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol
Asiantaeth Taliadau Gwledig
Asiantaeth Accountant in Bankruptcy yr Alban
Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd Yr Alban
Gweithrediaeth yr Alban (Adran Materion Gwledig, Asiantaeth Gwyddorau Amaethyddol a'r Asiantaeth Amddiffyn Pysgodfeydd)
Gweithrediaeth yr Alban (Swyddfeydd Marchnata Materion Gwledig, Wyau ac Ieir, Arolygu Cig a Da Byw)
Gweithrediaeth yr Alban (Bwydydd Lles)
Gwasanaeth Carchardai Yr Alban
Y Swyddfa Twyll Difrifol
Awdurdod Iechyd Arbennig
Awdurdod Egni Atomig y DU
Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr

## *I'w harolygu pob tair blynedd*

Awdurdodau Lleol - Cynghorau Dosbarth a Sirol

## *Blaenoriaeth arolygu i'w benderfynu unwaith y cynhelir yr arolygiad cyntaf*

Y Comisiwn Elusennau
Yr Asiantaeth Cynnal Plant
Adran Drafnidiaeth (Adran Forwrol ac Adran Twnnel y Sianel a'r Rheilffyrdd)
Adran Iechyd (Adran Rheoli Meddyginiaethau)
Diogelwch yr Adrannau, Yr Asiantaeth Bensiynau. Swyddfa Cydlynu Ymchwiliadau
Gwasanaethau Archwilio yr Adran Gwaith a Phensiynau
Awdurdodau Tân
Asiantaeth Safonau bwyd
Bwrdd Hapchwarae Prydain Fawr
Byrddau Iechyd yng Nghymru
Prif Arolygwr Ysgolion Ei Mawrhydi yn Lloegr
Heddlu'r Parciau Brenhinol

Awdurdodau eraill o'r math y bydd y Senedd yn eu cymeradwyo o dro i dro fel ychwanegiadau i Atodlen RIPA.

ATODIAD F

# AELODAU'R SWYDDFA COMISIYNWYR AR-WYLIO
# AR FAWRTH 2004



# Swyddfa'r Comisiynwyr
# Ar-wylio

**Blwch Post 29105**
**Llundain SWIV IZU**

Ffôn: 020 7828 3421
Ffacs: 020 7592 1788
www.surveillancecommissioners.gov.uk

Cyhoeddwyd gan Y Llyfrfa ac mae ar gael:

**Ar-lein**
www.tso.co.uk/bookshop

Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost
TSO
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522
Archebion ffacs 0870 600 5533
Archebion drwy linell ffôn Lo-Call y Senedd 0845 702 3474
E-bost book.orders@tso.co.uk
Ffôn testun 0870 240 3701

**Siopau'r Llyfrfa**
123 Kingsway, London WC2B 6PQ
020 7242 6393 Ffacs 020 7242 6394
68-69 Bull Street, Birmingham B4 6AD
0121 236 9696 Ffacs 0121 236 9699
9-21 Princess Street, Manchester M60 8AS
0161 834 7201 Ffacs 0161 833 0634
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD
028 9023 8451 Ffacs 028 9023 5401
18-19 Y Stryd Fawr, Caerdydd CF10 1PT
029 2039 5548 Ffacs 029 2038 4347
71 Lothian Road, Edinburgh EH3 9AZ
0870 606 5566 Ffacs 0870 606 5588

**Asiantau Achrededig TSO**
(gweler Yellow Pages)

*a thrwy siopau llyfrau da*

Argraffwyd yn y DU ar gyfer The Stationery Office Limited
ar ran Rheolwr Y Llyfrfa
ID xxxxxxxxxxx